Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

ies

Graddedigion Cymru a'u Swyddi

Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yng Nghymru

Adroddiad Cryno

Claire Tyers, Helen Connor, Peter Bates, Emma Pollard, Will Hunt

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

goWales

YR UNDEB EWROPEAIDD Cronfa Gymdeithasol Ewrop AMCAN 1
EUROPEAN UNION European Social Fund OBJECTIVE 1

Cynnwys

Mae'r crynodeb hwn yn nodi canfyddiadau'r prif adroddiad fel a ganlyn:

- Manylion yr astudiaeth
- Prif negeseuon
- Disgrifio'r sefyllfa
- Graddedigion sy'n gweithio
- Graddedigion sy'n ymfudo
- Galw am / gan raddedigion
- Cyflogadwyedd graddedigion
- Symud ymlaen

Y Sefydliad er Astudiaethau Cyflogaeth (IES)

Canolfan ymchwil ac ymgynghoriaeth annibynnol, anwleidyddol, ryngwladol mewn materion adnoddau dynol yw'r Sefydliad er Astudiaethau Cyflogaeth. Mae'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr yn y sectorau gweithgynhyrchu, gwasanaeth a chyhoeddus, adrannau'r llywodraeth, asiantaethau a chyrff proffesiynol a chyrff cyflogeion. Bu'r Sefydliad yn ffocws gwybodaeth a phrofiad ymarferol mewn polisi cyflogaeth a hyfforddiant, gweithredu marchnadoedd llafur a chynllunio a datblygu adnoddau dynol ers dros 35 mlynedd. Sefydliad nid er elw yw IES sydd â thros 60 o staff amlddisgyblaethol a chymdeithion rhyngwladol. Mae arbenigedd IES ar gael i bob sefydliad trwy ymchwil, ymgynghoriaeth, cyhoeddiadau a'r Rhyngrwyd.

Nod IES yw ysgogi gwelliannau cynaliadwy mewn polisi cyflogaeth a rheoli adnoddau dynol. Mae IES yn cyflawni hyn trwy gynyddu dealltwriaeth a gwella arfer pobl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol mewn cyrff polisi a sefydliadau sy'n cyflogi.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo addysg uwch ardderchog yn rhyngwladol yng Nghymru, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru a thu hwnt.

Trwy weithio gyda phartneriaid, rydym yn defnyddio cyllid gan y Cynulliad ac eraill er mwyn:

- sicrhau dysgu addysg uwch ac ymchwil o'r ansawdd gorau
- gwneud y gorau o gyfraniad addysg uwch at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru
- sicrhau darpariaeth hyfforddiant athrawon achrededig, o ansawdd uchel ledled Cymru.

Manylion yr astudiaeth

Mae'n disgrifio graddedigion a'u swyddi yng Nghymru

Yn ystod 2005, contractiodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) y Sefydliad er Astudiaethau Cyflogaeth (IES) i gynnal astudiaeth i hysbysu sefydliadau addysg uwch (SAUau) a llunwyr polisi allweddol eraill yng Nghymru ynghylch y farchnad lafur i raddedigion yng Nghymru.

CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw CCAUC sy'n gyfrifol am ariannu addysg uwch (AU) yng Nghymru. Mae'n cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon cyllid y sector AU, ac mae'n hyrwyddo diddordebau Cymru yn arena AU ehangach y DU.

Trosolwg o fentrau a materion cyflogadwyedd

Ymateb i hanfodion diweddar oedd yr ymchwil: y dylai Cymru groesawu'r economi wybodaeth, ac y dylai ei SAUau fod â rhan mewn cynhyrchu graddedigion â sgiliau priodol sy'n gallu bodloni anghenion cyflogwyr Cymru. Roedd hi hefyd yn bwysig i'r ymchwil archwilio natur newidiol swyddi graddedigion a sut y gellir datblygu polisïau cyflogadwyedd ymhellach, a gweld sut oedd profiadau yng Nghymru yn cymharu ag ardaloedd eraill ac ardaloedd tebyg.

Roedd yn cynnwys rhanddeiliaid, cyflogwyr ac adolygu llenyddiaeth/data

Roedd yr astudiaeth yn cynnwys tair prif thema:

- adolygiad o ffynonellau llenyddiaeth a data perthnasol, gan gynnwys dadansoddi data o ddwy ffynhonnell ddata genedlaethol fawr (Arolwg y Llafurlu a'r arolwg o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch)
- cyfweliadau ag ystod o randdeiliaid a chynrychiolwyr o'r holl wasanaethau gyrfaoedd sy'n gweithredu yn SAUau Cymru
- arolwg ffôn o 500 o gyflogwyr yn gweithredu yng Nghymru a chyfweliadau wyneb yn wyneb â 23 o recriwtiaid graddedig.

Mae manylion llawn ar gael mewn adroddiad ar wahân

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r ymchwil hwn. Mae manylion llawn o'r holl elfennau ymchwil a'r canfyddiadau manwl ar gael mewn dogfen ar wahân:

Graddedigion Cymru a'u Swyddi: Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yng Nghymru, cynhyrchwyd gan IES a CCAUC, ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan CCAUC: www.hefcw.ac.uk.

Prif negeseuon

Mae'r galw am raddedigion a'r nifer sy'n dychwelyd yn parhau'n gryf

Nid oes yna **unrhyw dystiolaeth o alw cynyddol am raddedigion yng Nghymru**, ac mae'n ymddangos y bydd y tuedd at i fyny mewn galw yn parhau, o leiaf yn y tymor byr i'r canolig.

Mae yna **rywfaint o dystiolaeth o ostyngiad bach yng ngraddfa'r adenillion economaidd** ar gymwysterau AU o'u cymharu â degawd ynghynt ac y gallai gwerth gradd fod yn gwanhau rhywfaint, yn bennaf oherwydd y cyflenwad cynyddol.

Mae yna, fodd bynnag, **bremiwm cyflog clir o hyd** yn gysylltiedig â chael cymwysterau lefel uwch, ac er bod cyflogau yng Nghymru yn is na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill y DU, gan gynnwys cyflogau graddedigion, nid yw hyn oherwydd adenillion is ar AU yn benodol ond yn hytrach cyflogau cymharol is yn gyffredinol.

Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer graddedigion yn hynod uchel a gall graddedigion yng Nghymru yn realistig ddisgwyl canlyniadau cyflogaeth da.

Mae cyfran uchel o raddedigion yng Nghymru yn gweithio mewn swyddi lefel uchel – dros bedwar allan o bump. Mae sefyllfa Cymru o'i chymharu ag ardaloedd eraill yn y DU yn ôl y mesurau hyn yn dda.

Nid yw **tuedd rhyw yn y gwaith** y mae graddedigion yn ymgymryd ag ef yn newid ymhlith graddedigion iau er gwaethaf y ffaith bod cyfranogiad merched mewn AU bellach yn fwy na chyfranogiad dynion.

Mae graddedigion sy'n ferched yn fwy tebygol o aros yng Nghymru neu ddod yma yn y cyfnod cychwynnol ar ôl graddio, felly gallai'r tueddiadau rhyw hyn beri pryder penodol i Gymru o gofio gwahanol broffil y dewisiadau pwnc gradd a wneir gan ddynion a merched.

Mae ymfudo allanol yn unol ag ardaloedd eraill

Ar y cyfan, mae Cymru yn allforiwr net o raddedigion i ardaloedd eraill o'r DU, ond nid yn fwy na nifer o ardaloedd eraill yn y DU, a'r unig ardal sy'n mewnforio graddedigion yn llwyddiannus yw Llundain. Mae graddedigion sy'n ddynion a'r rheiny sy'n 24 oed neu'n iau, ychydig yn fwy tebygol o adael Cymru yn yr un modd ag y mae'r rheiny sydd â chymwysterau lefel ôl-radd.

Er bod **Cymru yn tueddu i golli ei graddedigion sydd wedi ennill cymwysterau uchel yng Nghymru, mae hefyd yn denu graddedigion â chymwysterau uchel** o ardaloedd eraill o'r DU. O gofio'r niferoedd mawr o fyfyrwyr o Loegr sy'n dewis astudio mewn SAUau yng Nghymru, byddai'n ymddangos bod cyfle i annog y graddedigion hyn i aros ar ôl graddio. Recriwtiaid graddedig yw oddeutu traean o gyflogwyr yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys ystod o fusnesau bach a chanolig. Byddai'n ymddangos bod newid yr amgyffrediad nad yw Cymru yn cynnig swyddi i raddedigion am fod ganddi lai o gyflogwyr mawr yn rhan hanfodol o

annog graddedigion i aros. Mae yna swyddi ar gael, ond efallai nad ydynt mor weladwy â'r swyddi y tu allan i Gymru.

Mentrau cyflogadwyedd yn arwain y DU

Cymru sydd ar y blaen o ran mentrau cyflogadwyedd yn y DU ac mae'n haeddu cael mwy o gydnabyddiaeth y tu mewn a'r tu allan i Gymru.

Mae'r math o baratoi a sgiliau sydd eu hangen ar raddedigion yn wahanol oherwydd ei phroffil cyflogwr, ac mae SAUau yn cydnabod hyn. Mae yna hefyd sectorau lle mae'n rhaid i raddedigion chwilio am gyfleoedd y tu allan i Gymru.

Er gwaethaf adeiladu perthynas gref â rhai grwpiau cyflogwyr allweddol, e.e. cyflogwyr mwy a chyflogwyr sector cyhoeddus, **mae'n anodd cyflawni llwyddiant â chyflogwyr llai, sector preifat.** O gofio bod y mwyafrif helaeth o fusnesau Cymru sydd â'r gallu i gynnig cyflogaeth i raddedigion yn y dyfodol yn fusnesau preifat, llai, mae yna waith i'w wneud o hyd.

A ellir disgwyl i SAUau Cymru newid y sefyllfa hon? Hyd yn oed o gofio llwyddiant **GO Wales fel offeryn i gryfhau cysylltiadau â chyflogwyr,** mae hwn yn gwestiwn allweddol ar gyfer yr agenda cyflogadwyedd. Gwerthfawrogir profiad gwaith gan lawer o gyflogwyr llai, ac mae'r ffocws parhaus ar yr elfen hon o GO Wales yn hynod briodol.

Lle da i fyw, ond lle da i weithio?

Mae Cymru yn denu graddedigion am nifer o ffactorau sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, ac mae llawer o raddedigion yn awyddus i aros neu ddychwelyd i'r ardal i weithio.

Cydbwysir hyn gan ddiffyg ymwybyddiaeth o'r hyn y gall economi Cymru ei gynnig, gyda'i holl amrywiadau. Mae gan Gymru lai o'r mathau o swyddi llewyrchus uniongyrchol fel y rheiny mewn gwasanaethau ariannol neu mewn swyddogaethau masnachol mentrau mawr.

Nid yw'r **sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r sefyllfa mewn llawer o ardaloedd eraill yn y DU,** ac mae llawer o'r graddedigion sy'n aros yng Nghymru neu'n symud i Gymru i weithio yn gwneud yn dda o ran eu cyfraddau cyflogaeth a lefel y swydd a gânt.

Gallai cynhyrchu **mwy o wybodaeth sy'n benodol i Gymru** am yrfaoedd a chyfleoedd helpu i hysbysu graddedigion yn well o'r hyn y gall Cymru ei gynnig a'r hyn na all ei gynnig, gan adael iddynt wneud dewisiadau mwy gwybodus am eu dyfodol mewn perthynas â Chymru.

Beth mae graddedigion yn ei gynnig?

Ychydig iawn o **ymchwil cyfredol sydd ar y manteision busnes y mae graddedigion yn eu cynnig**, ac ychydig iawn o ddata trylwyr i rannu â chyflogwyr. Mae'n sicr nad oes yna unrhyw beth a allai ateb rhai o'r cwestiynau penodol sy'n berthnasol i lawer o gyflogwyr Cymru.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar gael swyddi i raddedigion, yn hytrach na chael graddedigion i lwyddo mewn swyddi. Dylai ymchwil yn y dyfodol ystyried felly a oes angen mwy o sgiliau ar lefel person graddedig yn y gweithle neu'n syml yr angen i wneud defnydd gwell ohonynt yn y gwaith.

Disgrifio'r sefyllfa

Mwy o fyfyrwyr ac amrywiaeth

Mae AU yng Nghymru, fel yn y DU gyfan, wedi bod yn tyfu ac mae yna fwy o amrywiaeth bellach o ran myfyrwyr (e.e. mwy o fyfyrwyr hŷn, lleiafrifoedd ethnig ac economaidd gymdeithasol is). Mae'r gyfradd newid wedi arafu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'r gwahaniaethau mewn cyfranogiad AU yn ôl dosbarth cymdeithasol, a hefyd rhwng ardaloedd daearyddol, yn parhau. **Mae llif ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr yn arwyddocaol.**

Mae'r cydbwysedd pynciau a gyflwynir mewn AU wedi newid, gyda chyflwyno dysgu yn fwy hyblyg, rhaglenni â chyfeiriad galwedigaethol a dysgu yn y gwaith, mwy o ffocws ar sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm a newidiadau arwyddocaol mewn trefniadau ariannol myfyrwyr.

'Swyddi graddedigion' yn newid

Mae'r economi, hyd yn hyn, wedi derbyn y cyflenwad cynyddol o raddedigion yn dda, ond mae **marchnad lafur graddedigion wedi dod yn ehangach ac yn fwy amrywiol.** Nid yw'r mwyafrif helaeth o fyfyrwyr Cymru yn ymgymryd â'r mathau traddodiadol o swyddi graddedigion mewn cwmnïau mawr; yn hytrach, maent yn mynd i ystod eang o gyflogaeth neu astudio ymhellach. Mae hyn yn cynnwys tua **thraean sy'n cymryd swyddi lle nad yw gradd yn cael ei hystyried yn ofyniad ar y dechrau.**

Mae cyflogau graddedigion yn amrywio'n eang, ac mae cyflogau cyfartalog yng Nghymru ymhlith y cyflogau isaf o unrhyw ardaloedd yn y DU, sy'n adlewyrchu cyflogau is yn gyffredinol yn hytrach nag adenillion llai ar ein gradd. Mae'r mwyafrif helaeth o raddedigion yn debygol o fod mewn 'swyddi graddedigion' bedair blynedd ar ôl graddio ac maent yn fodlon â'u gyrfaoedd ar y cyfan. **Mae gan raddedigion y DU un o'r cyfraddau uchaf o ran adenillion ar eu gradd yn Ewrop.**

Mae cysylltiadau SAU/cyflogwyr yn amrywio o ran cryfder

Mae graddedigion yn llai tebygol o gael eu cyflogi mewn cwmnïau bach yn gyffredinol, a chyfleoedd mewn cwmnïau mawr sy'n dominyddu gwybodaeth gyrfaoedd mewn SAU. Mae recriwtiaid sy'n raddedigion yn gwneud defnydd cynyddol o dechnoleg y Rhyngrwyd (e.e. cymwysiadau gwe) ynghyd â dulliau recriwtio eraill, ond mae cyflogwyr llai yng Nghymru yn debygol o hyd o ddefnyddio dulliau traddodiadol yn bennaf (e.e. hysbysebion papur newydd).

Ystyrir bod GO Wales yn enghraifft lwyddiannus o hyrwyddo partneriaethau rhwng SAUau a chyflogwyr lleol. Y duedd yw bod myfyrwyr yn defnyddio gwasanaethau gyrfaoedd AU mewn ffyrdd mwy amrywiol, yn llai ar gyfer chwilio am swyddi, ac yn fwy ar gyfer cyngor ac arweiniad. Gall gwasanaethau gyrfaoedd SAU hefyd weithredu fel cyswllt pwysig rhwng AU a chyflogwyr, ac mae llawer yn cael eu hintegreiddio yn y cwricwlwm.

Graddedigion sy'n Gweithio

Mae cyflogaeth yng Nghymru yn cyd-fynd â gweddill y DU...

Mae gan raddedigion yng Nghymru gyfraddau cyflogaeth uchel, ac mae patrymau cyflogaeth yn debyg i weddill y DU, fel y mae cyfran y graddedigion sy'n gweithio mewn swyddi lle mae angen gradd.

Nid oes tystiolaeth bod cyflogwyr Cymru yn llai tebyg o dderbyn graddedigion, er gwaethaf y lefelau uchel iawn o raddedigion ac ôl-raddedigion sy'n bodoli yn y boblogaeth oed gwaith yng Nghymru, neu eu bod yn cynnig cyfran fwy o rolau nad ydynt yn rolau ar gyfer graddedigion nag yng ngweddill y DU.

... ond mae gan y sector cyhoeddus rôl gref

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr pwysig ledled y DU gyfan, ond yn enwedig yng Nghymru (e.e. mae addysg yn cyflogi llawer iawn o raddedigion). Mae llai o gyfleoedd i raddedigion yn y sector cyllid a gwasanaeth busnes yng Nghymru. Mae i hyn oblygiadau o ran y mathau o raddedigion sy'n debygol o gael eu cyflogi yn economi Cymru, ac felly'r math o effaith y gallant ei chael arni.

Gall graddedigion ddisgwyl adenillion ariannol o hyd

Yn ystod y cyfnod diweddaraf, nid oedd enillion ar raddau uwch a graddau cyntaf mor uchel ag yr oeddent ddegawd ynghynt. A yw hyn yn golygu bod llai o resymau i ymgymryd ag astudio ar lefel gradd? Mae hwn yn gwestiwn arbennig o bwysig o gofio dibyniaeth gynyddol myfyrwyr ar fenthyciadau, a'r gofyniad i dalu ffioedd.

Byddai'n ymddangos mai'r ateb yw na. **Caiff graddedigion adenillion cadarnhaol ar eu graddau o hyd, yn enwedig y rheiny sydd â graddau uwch.** Mae pobl sydd â gradd gyntaf yn ennill mwy na'r rheiny sydd â chymwysterau lefel is a allai fod wedi mynd i AU i astudio ar gyfer gradd.

Ychydig o ostyngiad, ond yn sefydlog ar y cyfan

Mae adenillion ar raddau cyntaf a lefel uwch wedi dangos arwyddion o ostyngiad bach dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, gan fod yna bellach gyfrannau uwch o raddedigion sydd â chymwysterau lefel gradd uwch, a chan fod yr adenillion yn uwch ar gyfer y grŵp hwn, mae'r gostyngiad cyffredinol i unrhyw un sydd â gradd (naill ai gradd gyntaf neu lefel uwch) wedi parhau yn gymharol gyson o'i gymharu â phobl nad ydynt yn raddedigion sydd â chymwysterau lefel uwch eraill neu gymwysterau Safon Uwch.

Rhaid i unrhyw drafodaeth ar gyflogau graddedigion yn y dyfodol barhau i wahaniaethu rhwng cymwysterau lefel gradd a chymwysterau gradd uwch.

Graddedigion sy'n Ymfudo

Mwy o symud i mewn ac allan gan rai sy'n cyflawni'n uchel

Ceir darlun cymhleth o fudo i mewn ac allan o Gymru, o ran graddedigion sy'n cyflawni'n uwch. **Er bod Cymru yn colli rhai o'i chyflawnwyr uchel i weddill y DU, mae'r graddedigion y mae'n eu denu o'r tu allan hefyd yn cyflawni'n uchel.**

Nid yw'r ffenomen hon yn unigryw i Gymru, ac mae'n adlewyrchu'r ffaith fod y cyfleoedd gorau yn denu'r graddedigion gorau. Lle mae Cymru yn cynnig swyddi da, nid oes tystiolaeth bod y rhain yn arbennig o anodd i'w llenwi am eu bod wedi'u lleoli yn yr ardal hon.

Mae darlun Cymru yn adlewyrchu ardaloedd eraill yn y DU

Nid yw'r gyfradd allfudo net ar gyfer graddedigion yn fwy i Gymru nag ar gyfer llawer o ardaloedd eraill yn y DU. Mewn gwirionedd, nid yw'r broblem yng Nghymru yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan. Felly, mae angen ystyried pryderon am golli dawn i Gymru yn y cyd-destun hwn, ac nid ei orbwysleisio.

Patrymau gwahanol ar gyfer grwpiau gwahanol

Mae'r patrymau mudo ar gyfer graddedigion yn wahanol yn ôl ystod o nodweddion personol ac addysgol. Ymddengys nad yw merched yn gallu teithio cymaint, a graddedigion rhwng 25 a 29 oed yw'r grŵp oedran sydd fwyaf tebygol o adael.

Gallai fod yna wahanol 'ysgogwyr' galwedigaethol ar gyfer y grwpiau gwahanol hyn felly. Yn ôl gwaith ymchwil eang, er enghraifft, mae dynion yn poeni mwy am gyflogau na merched. A yw hyn yn rhywbeth y mae angen i Gymru ei dderbyn, neu'n rhywbeth y gall yr ardal elwa arno?

Angen am ddata tymor hwy

Ar hyn o bryd, mae data symudedd ar raddedigion wedi'i gyfyngu i ddarlun yn y tymor byr iawn. Mae'r brif ffynhonnell ddata ar symudedd graddedigion (HESA DHLE) ar hyn o bryd yn darparu gwybodaeth am raddedigion am y chwe mis ar ôl iddynt raddio yn unig.

O'r ffynhonnell weddol gyfyngedig hon, gwyddom fod graddedigion sy'n dychwelyd i Gymru yn cymryd ychydig mwy o amser i ymgartrefu mewn swyddi. Mae unrhyw gasgliadau a lunnir am raddedigion yn mudo yng Nghymru, fodd bynnag, yn seiliedig ar ddata anghyflawn.

Mae yna gynlluniau, trwy estyniad HESA i'r arolwg cyrchfannau cyntaf, i gywiro hyn ar lefel DU. Felly, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod cynrychiolaeth dda ar gyfer Cymru yn yr ymchwil hwn yn y dyfodol. Os olrheinir niferoedd annigonol o raddedigion sydd â chyswllt Cymreig, ychydig iawn yn fwy a ddaw'n amlwg am faterion sy'n ymwneud yn benodol â Chymru.

Galw am / gan Raddedigion

Mae gan y sector preifat lawer i'w gynnig

Mae'r sector cyhoeddus yn cynnig rhai o'r swyddi gwag y mae graddedigion yn fwy tebygol o wybod amdanynt yng Nghymru, ond mae gan gyflogwyr sector preifat lawer i'w gynnig hefyd. Gall cyflogwyr bach roi hyblygrwydd a phrofiad 'cyffredinol' na all llawer o gyflogwyr mwy ei roi. Gall dilyniant mewn cyflogwyr sector preifat yn aml ddigwydd ar gyflymder nad yw'n bosibl mewn llawer o rolau yn y sector cyhoeddus.

Os na all cyflogwyr llai a/neu sector preifat gystadlu â chyflogau cychwynnol uwch y sector cyhoeddus, mae angen iddynt werthu'r manteision eraill neu ychwanegol y *gallant* eu darparu.

Gall y ffordd y caiff yr ardal leol ei hamgyffred fod yr un mor bwysig wrth ddenu dawn â'r swydd a gynigir. Gallai hyn effeithio ar batrymau graddedigion wrth chwilio am swyddi hefyd. Os ystyrir mai cyfleoedd prin a gynigir gan ardal, mae'n debygol na fyddai'n ffurfio rhan o unrhyw broses o chwilio am swydd sydd â ffocws. **Mae rhai ardaloedd o Gymru yn agored iawn i'r amgyffrediadau hyn.**

Diffyg cyfleoedd mewn gwasanaethau ariannol

Mae'r diwydiant gwasanaethau ariannol yn gymharol annatblygedig fel cyflogwr graddedigion yng Nghymru. Mae'r diffyg cyfleoedd yn golygu bod graddedigion sydd â diddordeb yn y maes yn debygol o adael yr ardal a mynd â'u sgiliau i rywle arall. Mae hyn, yn ei dro, yn debygol o arwain at ddiffyg datblygu yn y sector ac ychydig o dwf yn y cyfleoedd sydd eu hangen i ddenu unigolion medrus yn ôl i mewn. Bydd angen torri'r cylch hwn os yw'r sector am ehangu.

Angen hunanhyrwyddo gwell

Wrth i'r garfan o raddedigion barhau i amrywio, gyda mwy o ferched a graddedigion hŷn, er enghraifft, ym mhoblogaeth y graddedigion, **gallai pwysleisio ansawdd materion bywyd (e.e. prisiau tai is, mynediad i'r awyr agored) gynnig mantais ranbarthol arbennig.** Gallai cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd helpu i wneud iawn am y lefelau cyflog cyfartalog is.

Strategaethau recriwtio yn allweddol

Mae cyflogwyr graddedig yn tueddu i fod yn fwy soffistigedig yn y technegau a ddefnyddiant, ac maent yn defnyddio amrywiaeth ehangach o ddulliau, yn enwedig y rheiny yn y gwasanaethau cyhoeddus. Gallai fod yn wir felly bod gan gyflogwyr graddedig yn syml broffil uwch yn gyffredinol, yn hytrach nag oherwydd eu bod yn canolbwyntio eu hymdrechion yn benodol ar gyrraedd graddedigion. Mae ychydig dros hanner o gyflogwyr graddedig yng Nghymru yn cyflogi graddedigion mewn swyddi nad ydynt ar gyfer graddedigion, felly gallai hyn yn sicr fod yn wir, yng nghyfnodau cynnar eu gyrfaoedd.

Byddai'n ymddangos felly bod **datblygu dulliau recriwtio mwy amrywiol a soffistigedig** yn ffordd bwysig ymlaen ar gyfer cyflogwyr yng Nghymru.

Cyflogadwyedd Graddedigion

Dulliau SAU cryf ond amrywiol

Mae Cymru yn darparu gwasanaeth gyrfaoedd cynhwysfawr yn ei SAUau, ond mae yna amrywiadau pendant yn y modd y cyflwynir hyn. Ymddengys fod darpariaeth gwasanaeth gyrfaoedd yn fwyaf ymatebol pan fydd yn gweithredu fel rhan greiddiol a chanolog o'r sefydliad, yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau adrannol a bod pobl yn ymgynghori â hi yn rheolaidd ar sut i wella profiad y myfyriwr. Mae angen i staff gwasanaeth gyrfaoedd gael eu hystyried yn bobl sy'n cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar y lefelau uchaf a hyrwyddo'u rôl fel ymgynghorwyr ar gyflogadwyedd graddedigion yn effeithiol.

Hyrwyddo profiad gwaith a sgiliau menter

Mae mentrau cyflogadwyedd fel lleoliadau gwaith a chymorth rheoli gyrfa yn fuddiol. O gofio'r cyfraddau cyflogaeth uchel yn gyffredinol, mae'r ffocws ar lefel sefydliadol fwyfwy ar gael swyddi da i raddedigion, nid unrhyw swydd yn unig. Mae proffil cyflogwyr rhai ardaloedd o Gymru, fodd bynnag, yn golygu, y gall y pwyslais hefyd fod ar sgiliau sy'n gysylltiedig â hunangyflogaeth a menter.

Cysylltiadau â chyflogwr yn adeiladu, ond angen eu cryfhau

Er gwaethaf ymdrechion gorau gwasanaethau gyrfaoedd, **ychydig iawn o gyswllt, os o gwbl, sydd gan gyfran fawr o gyflogwyr Cymru â SAUau, ac nid ydynt yn gweld unrhyw fantais i gyflogi graddedigion.**

Heb wybodaeth nac ymchwil i'r farchnad lafur sy'n gallu rhoi'r offer i SAUau ddangos y manteision busnes llinell waelod y gall graddedigion eu cynnig, mae'n anodd gweld sut gall Cymru ysgogi'r galw am raddedigion a'r ymwybyddiaeth ohonynt. Mae'n rhaid cymryd camau os yw'r galw cudd posibl am raddedigion am gael ei droi yn gyfleoedd gwirioneddol i raddedigion a busnesau.

Mae cyswllt rhwng cyflogwr a graddedigion yn helpu i hysbysu'r ddwy ochr

Yr agosaf y gellir cysylltu myfyrwyr â chyflogwyr lleol yn ystod eu cyfnod mewn SAUau yng Nghymru, y mwyaf tebygol yw hi y bydd y ddau barti am barhau â chysylltiadau yn dilyn graddio. Felly, mewn sefydliadau lle nad yw cyflogadwyedd yn rhan graidd o gwricwla gradd, neu wedi'u hadeiladu i brofiad y myfyriwr fel mater rheolaidd mewn rhyw ffordd arall, y perygl yw y bydd graddedigion wedi'u paratoi'n wael ar gyfer cyfleoedd yng Nghymru, a'u bod yn anwybodus.

Mae rhaglen GO Wales yn un ffordd lwyddiannus iawn i SAUau a'u graddedigion adeiladu perthynas â chyflogwyr yn eu cymunedau lleol. Yr her yw ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r fenter hon i sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir.

Symud ymlaen

Mae yna nifer o argymhellion sy'n ymddangos o'r ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys:

Elwa'n fwy effeithiol ar GFL sydd eisoes yn bod

Dyrannu adnoddau/arbenigedd yng Nghymru i wybodaeth well am y farchnad lafur (GFL) gan gynnwys casglu GFL ranbarthol a ledled Cymru. Dylai hyn adeiladu ar wybodaeth bresennol staff gyrfaoedd a chymryd camau i ffurfioli'r wybodaeth 'aneglur' neu anffurfiol y mae unigolion profiadol mewn gwasanaethau gyrfaoedd eisoes yn ei defnyddio yn gyson. Byddai'n ymddangos bod CCAUC mewn sefyllfa ddelfrydol i ddatblygu hyn.

Parhau i godi proffil yr agenda cyflogadwyedd

Bydd gofyn cael dull systematig â mwy o ffocws ar gyfer hyn. Gallai fod gan CCAUC fwy o rôl wrth gysylltu SAUau a chyflogwyr. Gallai cysylltu â rhwydweithiau cyflogwyr presennol fod yn fan cychwyn defnyddiol lle gallai cyflogwyr sydd â hanes da o weithio gyda graddedigion helpu i ddisgrifio'r manteision busnes a brofwyd ganddynt.

Sefydlu 'brand' Cymru

Datblygu strategaeth marchnata a chysylltiadau cyhoeddus mwy strategol i fynd i'r afael â materion hollbwysig i Gymru. Dylai hyn gynnwys amrywiaeth Cymru, yn ogystal â mynd i'r afael ag amgyffrediadau negyddol posibl o ran enillion y graddedigion yng Nghymru. Gellid targedu'r cysylltiadau cyhoeddus at raddedigion a chyflogwyr, ond gyda negeseuon clir ar gyfer y naill a'r llall, gan ddefnyddio profiad defnyddwyr GO Wales.

Ymestyn allan at fyfyrwyr

Dylai fod yn bosibl cyrraedd myfyrwyr trwy fanteisio ar ohebiaeth genedlaethol presennol, a gellid hefyd elwa ar y defnydd cynyddol o'r Rhyngrwyd gan fyfyrwyr a chyflogwyr fel offeryn recriwtio. Gellid marchnata'n ehangach hefyd gan ddefnyddio rôl awdurdodau lleol fel cyfrwng ar gyfer ariannu myfyrwyr, trwy ddal myfyrwyr posibl cyn iddynt ddechrau, a chyn iddynt benderfynu gadael Cymru.

Cadw golwg ar gyflogau

Monitro newidiadau i enillion graddedigion a'r premiwm cyflog graddedigion yn agosach. Mae data cywir a chyfoes ar enillion graddedigion yn dod yn bwysicach i fyfyrwyr fel ffactor wrth wneud penderfyniadau. Mae angen gwybodaeth amserol hefyd ar SAUau ar sut gallai newidiadau effeithio ar gostau a chyflenwad.

Bydd data sy'n amlygu tueddiadau yn y farchnad graddedigion hefyd yn cynnig y dystiolaeth gryfaf i lunwyr polisi sydd angen mynd i'r afael â chyflogadwyedd yn y tymor byr a'r tymor hwy, a'i deall.

Paratowyd ar gyfer CCAUC gan:

Y SEFYDLIAD ER ASTUDIAETHAU CYFLOGAETH
Mantell Building
University of Sussex
Falmer
Brighton BN1 9RF
UK

Ffôn. + 44 (0) 1273 686751
Ffacs + 44 (0) 1273 690430

www.employment-studies.co.uk

CCAUC
Cwrt Linden
Y Berllan
Clôs Ilex
Llanisien
Caerdydd CF14 5DZ
DU

Ffôn. +44 (0)29 2076 1861
Ffacs +44 (0)29 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

© Hawlfraint Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Lle caiff deunydd CCAUC ei gyhoeddi neu ei gyflwyno i eraill, rhaid cydnabod y ffynhonnell a'r statws hawlfraint.

Mae'r adroddiad llawn *Graddedigion Cymru a'u Swyddi: Cyflogaeth a Chyflogadwyedd yng Nghymru* ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan CCAUC: www.hefcw.ac.uk.